**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 2 HYDREF 2025 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Philip Davies (Cadeirydd), Nicola Jones, Janet Knott, Shan Rees, Elfyn Williams, Meinir James, Eifion Jones, Jenny Jones, Rheinallt Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Carys Thomas a Viv Davies.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd Medi 2025.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Green Gen –** Derbyniwyd cadarnhad y byddai'r ymgynghoriad ar gynigion Tywi-Wysg bellach yn digwydd yn 2026 yn hytrach na diwedd 2025. Nodwyd.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
4. **FC29/4 Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
5. **Grid Cenedlaethol – Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
7. **Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynnau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
8. **Torri coed yng Nghroesyceiliog - FC 29 4/1 a 4/2 –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
9. **Pont Rhydyronnen –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
10. **PL/09369** - **1-3 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Hysbyswyd y Cyngor fod Hysbysiad Newid Defnydd Sylweddol wedi'i gyflwyno gan dîm Gorfodi'r Cyngor Sir i bob parti gofynnol ar 26/08/2025.

    Roedd yr hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol iddynt:

- Rhoi'r gorau i ddefnyddio'r safle fel gorsaf trosglwyddo gwastraff ar gyfer derbyn, didoli a storio metelau sgrap yn barhaol;
- Symud unrhyw fetelau sgrap ac unrhyw wastraff a gynhyrchir gan weithgareddau didoli fel gwydr, rwber a phlastigion o'r tir yn barhaol;

- Symud yr adeilad a godwyd o gynwysyddion wedi'u pentyrru o'r tir yn barhaol, gan gynnwys y cynwysyddion y mae wedi'u hadeiladu ohonynt;
- Symud y hopranau swpio concrit diangen sy'n gysylltiedig â'r defnydd B2 o'r safle a ddaeth i ben yn barhaol

Roedd y cyfnod hysbysu yn 3 mis. Daeth yr hysbysiad i rym ar 30/09/2025 a'r dyddiad cau cydymffurfio oedd 30/01/2026. Nodwyd.

11. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
12. **Pryderon ynglŷn â chyflymder traffig o Pibwrlwyd yng Nghyffordd, Heol Bolahaul –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
13. **Cynghorau Cymuned cyswllt Tywi/Teifi – Cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau –** Dosbarthwyd cofnodion y cyfarfod diweddaraf a gynhaliwyd ar 25ain Gorffennaf 2025. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf ar 30ain Medi 2025. Nodwyd.
14. **Arwydd dim ffordd drwodd, Garthowen i Bryngors –** Derbyniwyd cadarnhad bod yr arwydd wedi'i osod yn y lleoliad. Nodwyd.
15. **Cyfarfod a Chynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru** – Nodwyd bod y digwyddiad wedi'i ganslo oherwydd nifer isel o bobl ar gael i fod yn bresennol.
16. **Glanhau Cysgodfeydd Bysiau Cymunedol** – Derbyniwyd cadarnhad bod y cysgodfeydd i fod i gael eu glanhau yn ystod yr Hydref. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys** – Bwletin. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd frys o'r C2073 yng Nghroesyceiliog ar 10fed Medi 2025. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru** – E-fwletin. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cais am enwebiadau ar gyfer Gwobrau Actif Sir Gâr. Nodwyd.
5. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd dros dro ar hyd yr U2211, GlanyFferi (SA17 5TP) o'i chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth sy'n arwain o Drelymsi i'w chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Bentrecwm am bellter o 641 metr i gyfeiriad cyffredinol De-ddwyreiniol ar ddydd Sul 26ain Hydref 2025 rhwng 09:30-15:30. Nodwyd.
6. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys** – Gwahoddiad i Ddiwrnodau Agored Pencadlys Heddlu Dyfed Powys. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru** – E-fwletin. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru** – Agenda a phapurau ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin a gynhelir ar 8fed Hydref 2025. Nodwyd.
9. **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru** - Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2026-27 gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Nodwyd.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Diweddariad i Gynghorau Cymuned a Thref. Nodwyd.

11. **Llywodraeth Cymru** – Datganiad Gweinidogol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol - Diweddariad ar gamau gweithredu i gefnogi rôl, llywodraethu ac atebolrwydd y sector cynghorau cymuned a thref. Nodwyd.
12. **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru** – Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cynigion Drafft ar gyfer y Trefniadau Etholiadol yn Sir Gaerfyrddin. Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol**

1. Roedd y Cyngor yn aros am adroddiad archwilio coed gan y Tîm Arb ar gyfer Cae Idole a Thir Gof.

**8. Atgyweiriwr Cymunedol**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Medi gyda chyfanswm cost o £644.00 yn cael ei gytuno. Cytunwyd hefyd dorri gwair ar gyfer Medi gyda chost o £322.00.

**9. Digwyddiadau Gymunedol 2025**

1. **Sul y Cofio**

Trafodwyd trefniadau ar gyfer Sul y Cofio ar gyfer Gwasanaeth yn Eglwys Llandyfaelog am 2pm ac yna gwasanaeth yn Nhir Gof.

**10. Adroddiad Cyllideb 2025-26**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb chwarter 2il ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2025-26. Cynhaliodd y Cyngor y gwaith monitro cyllideb chwarterol a derbyniodd yr adroddiad. Cynhaliodd y Cadeirydd adolygiad o gofnodion ariannol y Cyngor.

**11. Trefniadau Bancio a Thaliadau**

Trafodwyd trefniadau ar gyfer galluogi bancio electronig ar gyfrif y Cyngor, gan gynnwys ychwanegu'r Clerc fel llofnodwr y cyfrif banc (sy'n golygu byddai 4 llofnodwr mewn lle). Cymeradwywyd hyn a bydd y Clerc yn bwrw ymlaen â'r mater.

**12. Ceisiadau am Cymorth Ariannol**

1. **Cerebral Palsy Cymru (Bobath) –** Cytunwyd rhodd o £25.00
2. **Mynegodd y Cyng Rheinallt Jones, Nicola Jones, Shan Rees a Meinir James ei diddordeb**
   **Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog –** Cytunwyd rhodd o £100.00
3. **Mynegodd y Cyng Philip Davies, Janet Knott, Nicola Jones ei diddordeb a gwnaed gadael y Cyfarfod ar gyfer y mater. Cymerodd y Cyng Jenny Jones y Gadair am yr eitem.**
   **Neuadd Gymunedol Llandyfaelog – Goeden Nadolig a Grant Blynyddol –** Cytunwyd cyfraniad o £750.00.

**13. Cyfrifon**
**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

| 1. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfon Davies | Cyflog Medi a costau | £775.54<br>£26.00 | £14.40<br>£36.68<br>£7.00 | £859.62 | £310.40 | £53.78 | £549.22 |

2. **CTEM** **£1,131.76** Gorffennaf - Medi
3. **Vision ICT** **£327.00** Tanysgrifiad 2025-26 (£272.50 gyda TAW £54.50)
4. **Vision ICT** **£70.00** Tystysgrif SSL ar gyfer wefan y Cyngor (£58.33 gyda TAW £11.67)
5. **Michael Leefe** **£644.00** Torri gwair Medi (gweler eitem 8)
6. **Michael Leefe** **£1,288.00** Atgyweiriwr Medi (gweler eitem 8)
7. **Cerebral Palsy Cymru** **£25.00** Rhodd (gweler eitem 12.1)
8. **Neuadd Llandyfaelog Hall** **£750.00** Cyfraniad (gweler eitem 12.3)
9. **Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog** **£100.00** Rhodd (gweler eitem 12.2)

**14. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nododd y Clerc ei fod wedi adrodd y materion canlynol i'r Cyngor Sir:
    a. Dŵr yn cronni rhwng Y Lan a Bancycapel.
2. Bydd y Clerc yn adrodd yr angen i lanhau arwyddion yn Ardal Cwmffrwd a Phibwrlwyd i'r Cyngor Sir.
3. Bydd y Clerc yn adrodd bin llawn ym Mancycapel i'r Cyngor Sir.
4. Bydd y Clerc yn adrodd tyllau gerllaw'r palmant ym Mro Pedr i'r Cyngor Sir.
5. Bydd y Clerc yn codi pryderon ynghylch diogelwch cerddwyr yn croesfan Llandyfaelog i'r Cyngor Sir.
6. Bydd diolch yn cael ei danfon i staff y Cyngor Sir am eu gwaith cyflym yn clirio cwteri yn ardal Idole.
7. Nodwyd bod sbwriel yn cronni y tu ôl i loches bysiau Bancycapel. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r Atgyweiriwr.
8. Nodwyd toriadau pŵer diweddar yn yr ardal gyda phryder.
9. Nodwyd digwyddiadau yn y Gymuned fel a ganlyn:
    a. Cwrdd Diolchgarwch Penygraig – 12fed Hydref.
    b. Noson cwis er budd Eglwys Llandyfaelog – 17eg Hydref.

**15. Parc Solar Heol Ddu**

Nododd y Cadeirydd ei diddordeb a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem. Nododd y Clerc ei wrthdaro a'i fuddiannau a gadawodd y cyfarfod ar gyfer y mater. Cymerodd y Cyng Jenny Jones y Gadair am yr eitem.

Derbyniodd y Cyngor yr ymgynghoriad gan Qualitas Energy ar gynllun y prosiect a nododd y digwyddiadau ymgynghori ar y 13eg a'r 14eg o Hydref yng Nglan-y-fferi a Llandyfaelog ynghyd â sesiwn ragarweiniol i'r Cyngor i'w chynnal ar y 13eg o Hydref yng Nglan-y-fferi.

Cytunwyd trefnu cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor i ystyried y mater ar y 16eg o Hydref yn dilyn y cyfarfodydd hyn er mwyn galluogi aelodau i gael gwybodaeth lawn am y prosiect.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 6ed Tachwedd 2025.**